# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-19-09)

**Dyddiad: 10 Rhagfyr 2009**
**Amser: 9:30 – 10:30 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Aled Elwyn Jones, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates ac roedd Jenny Randerson yn dirprwyo ar ei ran.

### 2: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod ar gyfer eitem 3 a 4

2.1 Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), yn penderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, ar gyfer trafod materion mewn perthynas â busnes mewnol.

2.2 Derbyniwyd y cynnig gan y Pwyllgor.

### 3: Trafod materion allweddol ar ddyfodol ucheldiroedd Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'i ymchwiliad i ucheldiroedd Cymru.

### 4: Ymchwiliad i'r diwydiannau gwin, cwrw a seidr yng Nghymru: Cytuno ar gylch gorchwyl

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad i'r diwydiannau gwin, cwrw a seidr yng Nghymru.

### 5: Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papurau canlynol

Ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig: Cylch gorchwyl

Ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd Cymru: Rhagor o dystiolaeth gan yr RSPB

Ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd Cymru: Rhagor o dystiolaeth gan y parciau cenedlaethol

Ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd Cymru: Rhagor o dystiolaeth gan NFU Cymru